

PENNAWD Y PENNAETH



CYLCHLYTHYR YGC HYDREF 2026

Rydym wedi mwynhau dechrau gwych i'r flwyddyn ysgol newydd, gyda'r disgyblion wedi ymgartrefu'n arbennig o dda ac yn ein gwneud yn hynod falch. Croeso cynnes i'r holl ddisgyblion a theuluoedd newydd sydd wedi ymuno â'n cymuned ysgol. Hoffwn hefyd gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'n staff ymroddgar, yn enwedig wrth i ni ddathlu Diwrnod Cynorthwyr Addysgu a Diwrnod Athrawon y Byd. Mae eu gwaith caled, eu gofal a'u hymrwymiad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n disgyblion bob dydd. Diolch am eich cefnogaeth barhaus, ac edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus a chyffrous arall gyda'n gilydd.

CYNLLUN DATBLYGU YSGOL

Eleni, byddwn yn canolbwyntio ar gryfhau a datblygu ymhellach:

- Darllen
- Ysgrifennu a rhifedd ar draws y cwricwlwm
- Amrywiaeth a gwrth-hiliaeth
- Amgylcheddau dysgu'r dosbarth
- Arweinyddiaeth a darpariaeth ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol).

BETH SYDD AR Y GORWEL?

02/10/26 - Tempest, lluniau disgyblion

Boreau Agored Llythrennedd:

05/10/26, 09:15, bl 4,5,6

06/10/26, 09:15, Meithrin, Derbyn & bl 1

07/10/26, 09:15, bl 2 a 3

12-23/10/25 - Cyfarfodydd rhithiol i rieni

16/10/26 - Eisteddfod y Cymoedd (Y Gwyndy)


26-30/10/26 - Hanner Tymor

GALL EICH PLENTYN FOD YN GYMWYS I GAEL CYMORTH ARIANNOL?

Er gall pob disgybl cynradd derbyn pryd ysgol am ddim, mae dal yn bwysig bod teuluoedd cymwys yn cofrestru ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim. Gall hyn helpu eich teulu i gael cymorth ariannol, gan gynnwys help gyda chostau gwisg ysgol a grantiau eraill. Mae pob cais llwyddiannus hefyd yn helpu'r ysgol i sicrhau cyllid ychwanegol sy'n cael ei ddefnyddio'n uniongyrchol er budd ein disgyblion. I wirio eich cymhwyster a gwneud cais, ewch i <https://beta.caerffili.gov.uk/gwneud-cais-am-brydau-ysgol-am-ddim> neu gysylltwch â swyddfa'r ysgol.

DARLLEN GARTREF

Mae ymchwil yn dangos bod ailddarllen yr un testun sawl gwaith yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddatblygu rhuglder darllen. Wrth i blant ddod yn fwy cyfarwydd â'r geiriau a'r cynnwys, maent yn darllen yn fwy cywir, yn fwy hyderus ac yn gallu canolbwyntio'n well ar ddeall yr hyn y maent yn ei ddarllen. Fel rhan o bolisi'r ysgol, disgwylir i blant ddarllen gartref bob nos a chael eu cofnod darllen wedi'i lofnodi. Gall 5-10 munud o ddarllen bob dydd wneud gwahaniaeth mawr i gynnydd eich plentyn. Diolch am eich cefnogaeth barhaus.



THE HEADLINE

YGC NEWSLETTER OCTOBER 2026



We have enjoyed a wonderful start to the new school year, with pupils settling in brilliantly and making us incredibly proud. A very warm welcome to all new pupils and families joining our school community. I would also like to take this opportunity to thank our dedicated staff, especially as we celebrate Teaching Assistant Day and World Teachers' Day. Their hard work, care and commitment make a real difference to our pupils every day. Thank you for your continued support, and we look forward to another successful and exciting year together.

SCHOOL DEVELOPMENT PLAN:

This year, we will be focusing on further strengthening and enhancing:

- Reading
- Writing and numeracy across the curriculum
- Diversity and anti-racism
- Classroom learning environments
- Leadership and ALN provision.

WHAT'S COMING UP?

02/10/26 - Tempest Photography, pupil pictures

Literacy Open Mornings:

05/10/26, 09:15, for years 4, 5 & 6
06/10/26, 09:15, Nursery, Reception & yr 1
07/10/26, 09:15, for years 2 & 3

12-23/10/26 - Virtual parent meetings
16/10/26, 6pm, Eisteddfod Y Cymoedd (Gwyndy)
26-30/10/26 - Half Term

COULD YOUR CHILD BE ELIGIBLE FOR HELP WITH SCHOOL COSTS?

Even though all primary pupils receive a free school meal, it is still important for eligible families to register for Free School Meals. This could help your family access financial support, including assistance with school uniform costs and other grants. Every successful application also helps the school secure additional funding that directly benefits our pupils. To check your eligibility and apply, please visit <https://beta.caerphilly.gov.uk/apply-for-free-school-meals>, or contact the school office.

READING AT HOME

Research shows that rereading the same text is one of the most effective ways to develop reading fluency, accuracy and confidence. Encourage your child to reread a page, paragraph or favourite book several times during the week, helping them to become more familiar with the words and read more smoothly. As part of our school policy, children are expected to read at home every evening and have their reading record signed. Just 5 to 10 minutes of daily reading can make a significant difference to your child's progress. Diolch!